Date • Dyddiad 11 Mehefin 2020
Your ref • Eich cyfeirnod
My ref • Fy nghyfeirnod SRD/KR
Telephone • Ffôn
Email • Ebost Education.Coronavirus@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

IAN WESTLEY, M.A. B.Eng.(Hons), C.Eng., M.I.Mech.E., M.C.I.B.S.E.
Chief Executive / Prif Weithredwr

STEVEN RICHARDS-DOWNES
Acting Director for Children & Schools
Cyfarwyddwr Dros Dro Plant Ac Ysgolion

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551
DX 98295 HAVERFORDWEST

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

E-bost: Education.Coronavirus@pembrokeshire.gov.uk

Annwyl Rieni/Gwarcheidiaid,

Rydym am rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi am ail-agor holl ysgolion Sir Benfro yn raddol. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg yng Nghymru (Kirsty Williams) ar 3 Mehefin 2020 y byddai pob plentyn yn cael y cyfle i 'Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi'. Bydd y cyfnod nesaf yn dechrau ar 29 Mehefin 2020 gyda'r tymor yn cael ei ymestyn o wythnos a bydd yn dod i ben ar 27 Gorffennaf 2020.

Mae hwn yn gyfnod pryderus i bawb. Gwyddom ein bod wedi gweld gostyngiad yn nifer yr achosion COVID-19 yn genedlaethol ac mae eich camau gweithredu wedi gwneud cyfraniad mawr at hyn. Gwyddom hefyd fod rhai teuluoedd a phlant wedi gweld bod cloi yn anodd iawn i ymdopi ag ef. Bydd rhai wedi eu heffeithio'n bersonol gyda cholled a galar, bydd eraill wedi wynebu heriau ariannol ac mae pob un ohonom wedi profi newid ac ansicrwydd. Y cam nesaf yw sut y gallwn yn awr agor pethau'n raddol ac yn synhwyrol fel na welwn gynnydd yn nifer yr achosion yn lleol.

Rydym yn gwybod y byddwch yn teimlo'n ansicr ac mae gennych lawer o gwestiynau am amgylchiadau unigol eich plentyn. Rydym am helpu i ddelio â'r cwestiynau hynny a mynd i'r afael â'ch pryderon.

Diogelu plant a staff yw ein blaenoriaeth.

Ni ddylai disgyblion sy'n cael llythyr gwarchod oherwydd eu bod yn feddygol agored i niwed neu sy'n byw mewn cartref gyda rhywun sy'n cael llythyr gwarchod ddychwelyd i'r ysgol.

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

Bydd timau arwain ysgolion yn cynnal asesiadau risg i'w helpu i nodi'r dull sy'n iawn yn ysgol eich plentyn. Fel Cyngor, rydym yn cydnabod na fydd pob ysgol yn gallu cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar unwaith. Bydd gallu mewn ysgolion yn amrywio a bydd angen i lawer o ysgolion gyflwyno ail-integreiddio'n raddol. Gallai hyn effeithio ar y grwpiau blwyddyn a all fod yn bresennol a'r y diwrnodau sydd ar gael.

Bydd ysgolion yn gweithio'n wahanol iawn, o leiaf am weddill tymor yr haf eleni. Bydd maint dosbarthiadau yn fach a bydd ysgolion yn gweithredu ymbellhau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y gall gwersi gael eu rhedeg yn wahanol, gall amseroedd egwyl ac amser cinio fod yn wahanol, gall amseroedd dechrau a gorffen ysgolion fod yn wahanol. Byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion a llywodraethwyr i geisio sicrhau cysondeb o ran egwyddorion a dull gweithredu.

Os oes angen cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar eich plentyn, bydd y trefniadau hyn yn newid wrth i drefniadau diogelwch a phellterau cymdeithasol llym gael eu cymhwyso ar y cerbydau. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion maes o law.

Gwyddom y gall ysgolion nad ydynt yn gwbl agored greu anawsterau i rieni sy'n gweithio. Byddwn yn creu cyfres o gwestiynau cyffredin ar wefan y Cyngor www.sir-benfro.gov.uk/ysgolionynailagor. Edrychwch ar y rhain yn gyntaf. Os nad ydynt yn mynd i'r afael â'ch cwestiynau, gallwch anfon e-bost atom yn Education.Coronavirus@pembrokeshire.gov.uk. Bydd y rhain i gyd ar gael o **9am ddydd Llun 15 Mehefin 2020.**

Bydd ysgolion ar ein rhan yn gofyn i chi fel rhieni/gofalwyr am eich bwriadau drwy arolwg. Mae hefyd yn werth nodi y bydd gofal plant brys yn parhau ar yr un pryd.

Yr ydym i gyd yn cytuno y bydd yn dda i blant ddychwelyd i'r ysgol ond rhaid i hynny fod pan fydd ysgolion a rhieni'n hyderus bod hyn yn ddiogel. Mae Cyngor Sir Benfro yn parhau i weithio'n agos gyda'n holl ysgolion sydd, rydym yn siŵr eich bod yn cytuno, wedi cyflawni gwaith gwych o dan amodau anodd iawn.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar ôl inni gael arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae llawer i'w ystyried rwy'n siŵr eich bod yn gwerthfawrogi a bydd mwy o wybodaeth ar gael cyn gynted â phosibl. Diolch i chi ymlaen llaw am eich cymorth parhaus.

Yn gywir,

Steven Richards-Downes
Cyfarwyddyr Dros Dro Plant Ac Ysgolion